William Wroth, 1576–1641
Clerigwr Piwritanaidd a chynullydd yr eglwys Ymneilltuol gyntaf yng Nghymru

Y mae William Wroth yn gymeriad pwysig yn hanes Cymru gan mai ef a sefydlodd yr eglwys Ymneilltuol gyntaf. Wrth gwrs ni wyddai ef bryd hynny faint o ddylanwad y byddai Ymneilltuaeth yn ei gael ar fywyd a hanes ein cenedl am y tri chan mlynedd dilynol.

Ganwyd William Wroth yn Llandeilo Bertholau, Gwent. Aeth i Rydychen yn gymharol ifanc ac fe'i haddysgwyd i ddechrau yn y New Inn Hall gan fatricwleiddio pan oedd yn bedair ar ddeg oed. Treuliodd bymtheng mlynedd yn y ddinas honno gan ennill BA yng Ngholeg Crist ym 1596, ac MA o Goleg Iesu ym 1605. Y mae peth dryswch ynglŷn â blwyddyn ei benodi'n rheithor Llanfaches gan fod tystiolaeth i hyn ddigwydd un ai ym 1611 neu 1617. Ymddengys bod Syr Edward Lewis wedi cynnig y fywoliaeth iddo ym 1611 ond na ddaeth y penodiad yn weithredol hyd 1617. Bu hefyd yn gyfrifol am Lanfihangel Rhosied o 1613 hyd ei ymddiswyddiad ym 1626. Ychydig iawn a wyddom amdano cyn ei dröedigaeth, ar wahân i'r ffaith iddo gael ei geryddu gan Esgob Llandaf am ei ymddygiad annerbyniol yn Llanfaches. Mae'n debygol iddo ddod i'r bywyd oddeutu 1625–6 pan oedd yn hanner cant oed, ac wedi hynny fe ddatblygodd yn Biwritan o argyhoeddiad ac yn bregethwr grymus. Byddai'r torfeydd a ddeuai i wrando arno mor fawr fel y byddai'n rhaid cynnal yr oedfaon yn y fynwent.

Oherwydd ei wrthwynebiad i Biwritaniaeth gofynnodd William Laud, Archesgob Caergaint, i'r Brenin ailgyhoeddi *Y Llyfr Chwaraeon* ym 1633 a gorchymyn iddo gael ei ddarllen yn yr eglwysi. Gwrthododd William Wroth wneud hynny ac fe aeth gerbron yr awdurdodau. Holwyd ef gan William Murray, Esgob Llandaf, ar ei ymweliad blynyddol â phlwyf Llanfaches, ac fe hysbysodd Lys yr Uchel Gomisiwn yn Llundain am ei ymddygiad gresynus. Gwysiwyd ef, William Erbury a Walter Cradoc gan y llys ond ni ddaeth dim o'r cyhuddiadau er iddynt gael eu trafod am dros

dair blynedd. Ymddengys bod Wroth wedi cytuno'n swyddogol ym 1638 i ildio i gais yr awdurdodau ond nid dyna a wnaeth yn ymarferol. Y flwyddyn ddilynol, 1639, dechreuodd ffurfio cynulleidfa ymneilltuol yn Llanfaches gan sefydlu'r achos Anghydffurfiol cyntaf yng Nghymru. Am gyfnod byr bu Henry Jessey, gweinidog cynulleidfa All Hallows yn Llundain yn cynorthwyo William Wroth, a oedd yn heneiddio, i ffurfio'r gynulleidfa yn eglwys. Dywedid i'r eglwys gael ei sefydlu ar batrwm y New England Way a ddatblygwyd gan John Cotton yn America. Rhoddai'r cynllun hwn elfen o ryddid i'r gynulleidfa, ac yn y dyddiau cynnar, eglwys gymysg o Annibynwyr a Bedyddwyr ydoedd. Ar y cychwyn buont yn cyfarfod mewn tai neu ysguboriau, ac nid adeiladwyd capel tan oddeutu 1801.

Dim ond am ddwy flynedd y bu William Wroth yn weinidog ar yr eglwys oherwydd bu farw ym 1641. Y mae copi o'i ewyllys ar gael sy'n taflu ychydig o oleuni ar ei bersonoliaeth. Rhoddodd dair acer o dir i blwyf Magwyr er mwyn cynorthwyo am byth ddeuddeg teulu tlawd ym mhlwyf Llanfaches. Byddai arian yn cael ei rannu'n flynyddol ar 1 Ebrill.